# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 10 Ebrill 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), William Cowie, Ann Davies, Meirick Davies, Alice Jones, Pat Jones, Margaret McCarroll, Dewi Owens a/ac Bill Tasker

Mynychodd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Bobby Feely a'r Huw Jones, ar gais y Pwyllgor.

Mynychodd y Cynghorwyr Ray Bartley fel Arsyllwyr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG), Prif Swyddog Cefn Gwlad (Gwasanaethau Warden) (HS), Cydlynydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Joe Welch

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Bill Tasker gysylltiad personol fel aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau, 6 Chwefror, 2014.

Materion yn codi: -

8. Diweddariad Perfformiad Y CYNLLUN MAWR - Eglurodd y Cydlynydd Archwilio ei bod yn aros am ymateb gan y Tîm Partneriaethau a Chymunedau mewn perthynas â materion a godwyd gan y Cadeirydd. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai

Eitem Fusnes yn ymwneud â'r CYNLLUN MAWR 2 yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf, 2014.

***PENDERFYNWYD*** *– y dylid, yn amodol ar yr uchod, dderbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 ADRODDIAD PARTNERIAETHAU LAW YN LLAW AT IECHYD MEDDWL GOGLEDD CYMRU

Roedd copi o adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth: Ardal y De wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at y cynnydd hyd yma ar y camau sydd eu hangen mewn ymateb i gynllun cyflenwi "Law yn Llaw at Iechyd Meddwl" ac yn amlinellu rhai o'r heriau a blaenoriaethau i'r partneriaid dros y flwyddyn i ddod. Roedd yn egluro gwybodaeth ar Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar a'i rôl o ran cefnogi a goruchwylio cydymffurfiaeth â'r cynllun cyflenwi a chynnydd yn ei erbyn. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cyflwyno adroddiad blynyddol ar Law yn Llaw at Iechyd Meddwl gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i Lywodraeth Cymru ac yn amlygu'r camau a argymhellwyd ar gyfer 2014/15.

Ym mis Hydref 2012 cyhoeddodd LlC Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, strategaeth poblogaeth gyfan ar gyfer iechyd meddwl a lles yng Nghymru. Roedd y weledigaeth yn y ddogfen a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn rhoi agenda uchelgeisiol ar iechyd meddwl ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf, gyda phwyslais clir ar gyfrifoldeb a rennir rhwng y gwasanaeth iechyd a llywodraeth leol. Yn dilyn ymgynghoriad â budd-ddeiliaid, roedd LlC wedi datblygu 6 chanlyniad lefel uchel o fewn Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Roedd y rhain wedi'u nodi yn yr adroddiad, a'u datblygu ymhellach yn y ddogfen a oedd yn nodi canlyniadau mwy manwl, ac roeddent yn cynnwys:-

Roedd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn cael ei gefnogi gan Gynllun Cyflenwi a oedd yn nodi manylion y camau gweithredu y byddai LlC ac asiantaethau partner yn eu cymryd i gyflawni'r cynllun. Roedd yn nodi'r cyfraniadau gofynnol gan LlC, llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, y trydydd sector ac ystod o bobl eraill gan gynnwys er enghraifft tai, addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes, cyflogwyr, a'r system cyfiawnder troseddol. Roedd pennod olaf y ddogfen yn nodi sut y byddai'r strategaeth yn gweithio ar lefel genedlaethol a lefel lleol a sut y byddai'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol newydd yn sicrhau ei chyflwyno.

Ym mis Mehefin 2013 sefydlodd BIPBC Fwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Gogledd Cymru i oruchwylio'r gwaith o gyflwyno a gweithredu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a'i gynllun cyflenwi, ac ym mis Hydref 2013 cyflwynodd yr adroddiad blynyddol i LlC. Roedd Atodiad 2 yn cynnwys y Cylch Gorchwyl priodol. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys cynnydd hyd yma a chyfeiriad at rai o'r heriau a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, ynghyd â thystiolaeth o'r ymrwymiad parhaus i weithio ar y cyd gydag iechyd a phartneriaid eraill i gyflawni'r camau gweithredu angenrheidiol.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd rhoddwyd canmoliaeth i'r berthynas waith gryf ym maes iechyd meddwl rhwng BIPBC ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych ar lefel defnyddiwr gwasanaeth. Yn yr un modd â'r egwyddorion a'r camau gweithredu yn y strategaeth a'r Cynllun Gweithredu a gafodd eu cymeradwyo. Fodd bynnag, codwyd nifer o bryderon ynglŷn â darpariaeth leol gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion, plant a'r henoed. Roedd y prif bryderon yn ymwneud â:-

- yr amseroedd aros a brofir gan blant a phobl ifanc o ran cael mynediad i wasanaethau Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a oedd â'r potensial i effeithio ar addysg yr unigolyn, cytunodd swyddogion BIPBC i baratoi adroddiad gwybodaeth i'r aelodau ar sut y byddai'r arian a ddyfarnwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru (LlC) i'r Gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i wella rhestrau aros CAMHS a gwasanaethau eraill. Maent hefyd wedi cytuno i ddarparu gwybodaeth am y cynnydd a gyflawnwyd hyd yn hyn, a chynnydd a ragwelir yn y dyfodol, wrth gyflwyno staff CAMHS hyfforddedig ym mhob Adran Damweiniau ac Achosion Brys yng Ngogledd Cymru.

- nifer y staff Iechyd Meddwl hyfforddedig sy'n siarad Cymraeg sy'n gweithio ym mhob ardal awdurdod lleol, yn enwedig nifer y seiciatryddion sy'n siarad Cymraeg. Cytunodd swyddogion BIPBC i ddarparu gwybodaeth am hyn, gan gynnwys y maes gwaith arbenigol y maent yn gweithio ynddo.

- yr oedi a gafwyd wrth ail-agor Ward Tawelfan yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn ei gau yn hwyr yn 2013 ar sail ansawdd a diogelwch gofal cleifion, ac wrth dderbyn adroddiad yr ymchwilydd annibynnol i mewn i'r mater. Sicrhawyd yr Aelodau nad oedd y ffaith fod y ward yn dal wedi'i chau yn fesur arbed adnoddau, roedd yn fater diogelwch cleifion a byddai'r ward yn ail-agor maes o law.

Swyddogion BIPBC:

- rhoddasant sicrwydd bod pob cam posibl, gan gynnwys trefniadau monitro cadarn a statws achrediad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, yn cael eu cymryd mewn ymgais i osgoi sefyllfaoedd tebyg i'r rhai a oedd wedi codi yn Tawelfan, rhag digwydd eto. Fodd bynnag, ni allai neb roi sicrwydd llwyr na fyddai sefyllfaoedd tebyg yn digwydd yn y dyfodol.

- gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod yr holl fesurau posibl yn cael eu cymryd i liniaru'r risg o gleifion yn dioddef unrhyw fath o aflonyddu neu fwlio mewn sefydliadau BIPBC.

- Roedd BIPBC yn gwario llai y pen o'r boblogaeth ar wasanaethau iechyd meddwl nag unrhyw fwrdd iechyd arall yng Nghymru.

- rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r ganolfan iechyd newydd ar safle hen Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl yn cynnwys ward gwasanaethau iechyd meddwl dynodedig ar gyfer pobl hŷn, a byddai ganddo tua 18 o welyau ac yn cael ei staffio gan gymysgedd o bobl â chymwysterau addas i ddarparu'r math cywir o ofal.

- byddai'r Uned Ablett yn parhau fel Uned Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych gyda gwasanaethau gofal seiciatrig dwys yn cael eu darparu ym Mangor a Wrecsam fel ar hyn o bryd.

- rhoddwyd amlinelliad o waith sydd ar y gweill gyda'r trydydd sector mewn ymgais i gyfuno gwasanaethau ar gyfer cyn-filwyr y lluoedd arfog, byddai hyn yn galluogi staff i gyfeirio cleifion at y sefydliad mwyaf priodol i gynorthwyo gyda'u hanghenion cymorth.

- rhoddwyd manylion am sut y gallai Adrannau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor gynorthwyo a chefnogi pobl ddiamddiffyn sy'n byw mewn tai awdurdod lleol, rhai gyda phroblemau iechyd meddwl, rhag cael eu bwlio neu rhag i bobl gymryd mantais ohonynt.

Gofynnodd y Pwyllgor fod y pryderon a amlinellwyd uchod ynglŷn â Ward Tawelfan yn cael eu codi yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych a oedd i gael ei gynnal ar ddiwedd mis Ebrill, 2014.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar yr arsylwadau uchod, nodi’r ymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth gyda BIPBC a phartneriaid eraill ar draws Gogledd Cymru i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl yn gyffredinol ac yn fwy penodol mewn perthynas â Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.*

**6 CYD-BWYLLGOR ARFAETHEDIG AR GYFER ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Cynghorydd H.Ll. Jones yr adroddiad ac eglurodd fod Gorchymyn Dynodi AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn darparu cydnabyddiaeth genedlaethol newydd a diogelu tirwedd i ran sylweddol o Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Roedd manylion daearyddol yr AHNE wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.

Dywedodd y Prif Swyddog Cefn Gwlad: Gwasanaethau Warden wrth y Pwyllgor fod y Pwyllgor AHNE presennol a'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol, i gydnabod yr ardal estynedig, wedi adolygu eu haelodaeth a chytuno ar aelodaeth gytbwys ar gyfer ALl gyda phob un yn cael eu gwahodd i anfon 3 Aelod i gyfarfodydd o'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol yn y dyfodol. Roedd y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol wedi argymell perthynas gryfach â’r ALl a chytunwyd mai’r Model Cyd-bwyllgor fyddai’r dull gorau o gyflawni’r amcan hwn. Roedd Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol a Swyddog AHNE wedi cwrdd â'r Arweinwyr, Prif Weithredwyr a Swyddogion Arweiniol a oedd yn gefnogol. Roedd y Pwyllgor wedi darparu arsylwadau ynglŷn â llywodraethu, yn bennaf craffu’r trefniadau ar gyfer y Cyd-bwyllgor newydd o fewn Cyngor Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae’r Cytundeb Cyfreithiol, (Atodiad 2), yn diffinio aelodaeth y Cyd-bwyllgor, pwerau dirprwyol a rolau.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cefn Gwlad: Gwasanaethau Warden mai prif rôl y Cyd-bwyllgor fyddai 'cyflawni swyddogaethau a ddirprwywyd rheolwyr AHNE', ac mai'r rôl allweddol fyddai 'cadwraeth a gwella harddwch naturiol yr ardal.'

Roedd AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn ymgorffori màs tir daearyddol canolog sylweddol gydag atyniadau poblogaidd, ac roedd yr AHNE yn cynnig cyfle iechyd a lles sylweddol i'r cytrefi yng Nglannau Dyfrdwy, Wrecsam, Sir Gaer a Glannau Mersi. Cyfeiriwyd at y newid yn swyddogaeth economaidd y priod ALl gyda dibyniaeth gynyddol ar dwristiaeth wledig. Roedd crynodeb o fanteision allweddol canlynol y Cyd-bwyllgor wedi eu cynnwys yn yr adroddiad:-

- Gwell Gwelededd i'r AHNE.
- Gwell eglurder.
- Gwell cydlynu o Gamau Gweithredu'r AHNE.
- Gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Strategaeth benodol.
- Arweinyddiaeth â Chanolbwynt.
- Stiwardiaeth gyfrifol.
- Eiconau.

Cafodd y Cyd-bwyllgor ei ystyried yn 'arfer da' ar gyfer llywodraethu'r AHNE a byddai Swyddogion yr AHNE yn datblygu llawer o agweddau ar y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Dros Dro presennol. Byddai'r Cyd-bwyllgor yn sefydlu Partneriaeth AHNE yn ei gyfarfod cyntaf, ac roedd manylion aelodaeth wedi eu darparu. Er mwyn dangos ymdriniaeth fwy cynhwysfawr i ymgynghoriad byddai'r AHNE yn cynnal Fforwm AHNE yn flynyddol a byddai gan bob un thema amserol. Byddai aelodau ALl a Chynghorau Cymuned y mae eu Ward, neu ran o'u Ward yn rhan o'r AHNE yn cael eu gwahodd ynghyd ag unrhyw gyrff neu unigolion eraill sydd â diddordeb.

Wrth ystyried yr adroddiad cynghorwyd Aelodau am y rhesymeg y tu ôl i gael nifer gyfartal o Aelodau'r Cabinet o bob un o'r tri Awdurdod Lleol ar y Cyd-bwyllgor a'r Grŵp Partneriaeth, er gwaethaf y ffaith fod y rhan fwyaf o'r AHNE yn ddaearyddol o fewn ffiniau sirol Sir Ddinbych.

Eglurwyd mai Sir Ddinbych fyddai'r Awdurdod Arweiniol. Byddai cyfraniad Sir Ddinbych a chyfraniad Cynghorau eraill tuag at weinyddiaeth yr AHNE yn cael ei dalu i mewn a'i gyfrif amdano ar linell cyllideb ar wahân at ddibenion archwilio a thryloywder. Dywedwyd wrth y Pwyllgor ar ôl i'r holl ALl gymeradwyo'r cynnig i sefydlu Cyd-bwyllgor, at y diben o gyflawni swyddogaethau dirprwyedig Rheoli'r AHNE, byddai Grŵp Partneriaeth ar y Cyd sy'n cynnwys grŵp ehangach o fudd-ddeiliaid yn cael ei sefydlu i ddatblygu cynllun rheoli ar gyfer ardal yr AHNE.

Rhoddwyd sicrwydd pe byddai angen adnoddau ariannol ychwanegol ar unrhyw adeg y byddai'n rhaid i swyddogion AHNE fynd at yr holl Gynghorau cyfansoddol gyda chais am y cyllid ychwanegol. Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd caniatáu datblygiadau tai 'fforddiadwy' mewn cymunedau gwledig gyda'r bwriad o gynnal yr economi leol a sicrhau bod amwynderau cymunedol yn hyfyw.

Gofynnodd Aelodau am gael gweld y ddeddfwriaeth ar gyfer Cydbwyllgorau sy'n nodi bod aelodaeth Cydbwyllgorau yn gyfyngedig i Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol / Cabinet. Wrth gymeradwyo'r cynigion gofynnodd Aelodau hefyd bod ymweliad yn cael ei drefnu ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor, yn ystod haf 2014, i AHNE a safleoedd Gwasanaethau Cefn Gwlad ledled y Sir er mwyn iddynt allu deall yn llawn gwerth y sefydliadau hyn i drigolion ac i'r economi leol.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) bod y Pwyllgor, yn amodol ar yr arsylwadau uchod, yn cefnogi'r trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.*
*(b) bod adroddiad cynnydd ar gyflawniadau'r Cyd-bwyllgor o ran cyflawni ei amcanion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen 12 mis.*
*(c) bod y Pwyllgor yn cael manylion y ddeddfwriaeth a oedd yn nodi aelodaeth y Cydbwyllgorau, a*
*(d) bod y Pwyllgor yn gofyn bod ymweliad yn cael ei drefnu i weld rhannau o'r AHNE.*

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys fel Atodiad 2 ac roedd tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor, a chynghori ar eu cynnydd â'u gweithredu, wedi'i atodi yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ddrafft ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, fel y manylir yn Atodiad 1, a gofynnodd yr Aelodau bod yr Aelodau Arweiniol, y Cynghorwyr R.L. Feeley a D.I. Smith yn cael eu gwahodd i gyflwyno eu hadroddiadau yng nghyfarfod Mehefin, 2014 y Pwyllgor.

Eglurwyd bod y Pwyllgor i fod i ystyried adroddiad ar Bartneriaeth y Cynllun Datblygu Gwledig yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth, 2014 a oedd wedi ei ganslo. Gan fod y cynrychiolwyr gofynnol wedi methu dod i'r cyfarfod presennol neu gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Mehefin, roedd cyflwyno'r adroddiad wedi ei aildrefnu ar gyfer y cyfarfod ar 10 Gorffennaf, 2014.

Hysbysodd y Cydlynydd Archwilio yr Aelodau bod adroddiad gwybodaeth, a oedd yn rhoi eglurhad o Daliadau Uniongyrchol a Gwybodaeth am ddatblygu Pwynt Mynediad Sengl, wedi'i ddosbarthu gyda'r Brîff Gwybodaeth ar gyfer y cyfarfod. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J.A. Davies, eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes y byddai adroddiad cynnydd o ran y mater hwn yn cael ei ddarparu yn dilyn ei weithredu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, eglurodd y Cydlynydd Archwilio y byddai'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio yn ystyried y cais ar gyfer

cyflwyno adroddiad, i'r Pwyllgor Craffu priodol, mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i'r Gwasanaeth Wardeiniaid Tai Gwarchod.

***PENDERFYNWYD** - yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Darparodd Aelodau'r Pwyllgor y manylion canlynol mewn perthynas ag amryw o Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor:-

Roedd copïau o adroddiadau ar Ymweliad Gwasanaeth â Theatr y Pafiliwn, Y Rhyl gyda Refeniw a Budd-daliadau yn Nhŷ Russell, Y Rhyl, a fynychwyd gan y Cynghorydd D. Owens, wedi eu dosbarthu gyda'r papurau gwybodaeth ar gyfer y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD** - derbyn yr adroddiadau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm.